

Cynllun Iaith Gymraeg 2011-2014

Cynllun Iaith Gymraeg a luniwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru'n trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn egluro sut y bydd Cyngor Bro Morgannwg yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.

Cymeradwywyd y Cynllun gan y Bwrdd o dan adran 14(1) o'r Ddeddf. Dyddiad ei gymeradwyo: 27 Chwefror 2012



Cewch fwy o wybodaeth am y Cynllun Iaith oddi wrth:

Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y BARRI
CF63 4RU

E-bost: equalities@valeofglamorgan.gov.uk
Ffôn: 01446-709362
Ffacs: 01446-70177213

Byddai'r Cyngor wrth ei fodd yn derbyn awgrymiadau oddi wrth y cyhoedd a staff ar gyfer gwella unrhyw agwedd ar ei Gynllun Iaith Gymraeg.

CYFLWYNIAD	4
CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU	8
Polisiâu a chynlluniau newydd	8
Darparu gwasanaethau.....	9
Safon y gwasanaeth yn Gymraeg.....	9
YMDRIN Â'R CYHOEDD CYMRAEG EI IAITH	11
Gohebiaeth	11
Ffonio.....	12
Cyfarfodydd cyhoeddus	12
Cyfarfodydd eraill.....	13
Ymwneud â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill	13
Materion cyffredinol.....	13
WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR	14
Hunaniaeth gorfforaethol	14
Arwyddion cyffredinol.....	14
Arwyddion adeiladau.....	14
Arwyddion hanesyddol ac arwyddion ar gyfer ymwelwyr	15
Enwau lleoedd	15
Arwyddion stryd	15
Arwyddion traffig dros dro	15
Cyhoeddiadau a ffurflenni	15
Hysbysiadau i'r wasg	18
Cyhoeddusrwydd, hysbysebu ac arddangosfeydd.....	18
Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio	18
Gwefan y cyngor	19
GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN	20
Staffio.....	20
Recriwtio staff	20
Hyfforddiant Cymraeg ar gyfer staff	21
Trefniadau gweinyddol.....	22
Cyfleusterau cyfieithu.....	22
Gwasanaethau a osodir ar gontract/a ddarperir gan gyrff eraill	23
Swyddogaethau statudol/swyddogaethau rheoli eraill	23
Monitro	24
Cwynion	24
Cyhoeddi gwybodaeth a chyhoeddusrwydd.....	24
Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad	25
Amserlen.....	26
AMSERLEN CAMAU GWEITHREDU	27

CYFLWYNIAD

1. Ar sail yr amcangyfrif canol blwyddyn diweddaraf (Awst 2008), poblogaeth y Fro yw 124,869. Mae disgwyl i'r nifer hwnnw gynyddu 1% bob blwyddyn. Mae 49,770 o gartrefi yn y Fro (yn ôl amcangyfrif 2006) ac y mae disgwyl i'r nifer honno gynyddu i ryw 57,512 erbyn 2021. Mae disgwyl hefyd i batrwm oedran poblogaeth y Fro newid. Rhagwelir y bydd nifer y plant rhwng 0 a 14 oed wedi cynyddu o 22,688 yn 2007 i 24,042 yn 2021 a bydd nifer y bobl 65 oed ac yn hŷn wedi cynyddu o 21,558 yn 2007 i 30,027 yn 2021.
2. Y Barri, Penarth, Llanilltud Fawr, Dinas Powys a'r Bont-faen yw'r prif aneddiadau. Y Barri, sef y dref fwyaf sy'n gartref i bron i 50,000 o bobl, yw canolfan weinyddol y Fro ac y mae hefyd yn dref lan môr ac yn borthladd. Bedair milltir i'r gorllewin o ganol y dref yn y Rhws y mae Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd.
3. Mae 47 o gynghorwyr ar gyfer Bro Morgannwg sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn dod i benderfyniadau am flaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar system o lywodraethu drwy Gabinet sy'n dilyn cyfansoddiad. Mae'r Cabinet yn cynnwys 10 cynghorydd sy'n penderfynu ar faterion strategol a gweithredol fel ei gilydd.
4. Bydd cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet yn ymdrin â busnes y Cyngor drwy system o bwyllgorau craffu a phwyllgorau eraill. Byddant yn gwneud gwaith pwysig iawn drwy archwilio sut yn union y deuir i benderfyniadau a dod i wybod barn y cymunedau y maent yn eu cynrychioli. Bydd y pwyllgorau craffu'n archwilio materion yn fwy manwl ac yn cyflwyno eu darganfyddiadau i'r Cabinet eu hystyried. Mae pum pwyllgor craffu ar gyfer:
 - Adnoddau Corfforaethol
 - Dysgu Gydol Oes
 - Yr Economi a'r Amgylchedd
 - Tai ac Amddiffyn y Cyhoedd
 - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
5. Tîm o gyfarwyddwyr o dan arweiniad y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am reoli'r Cyngor o ddydd i ddydd. Trefnwyd y Cyngor yn 5 Cyfarwyddiaeth (sy'n cael eu cynorthwyo gan Swyddfa'r Prif Weithredwr) sef:
 - Dysgu a Datblygu
 - Gwasanaethau Cymdeithasol
 - Adfywio Amgylcheddol ac Economaidd
 - Y Gyfraith, Amddiffyn y Cyhoedd a Thai
 - Cyllid, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGaCh) ac Eiddo
6. Mae'r weledigaeth ar gyfer Bro Morgannwg wedi'i hegluro yn Strategaeth Gymunedol 2010-2020. Rydym am weld Bro sy'n:
 - ddiogel, yn lân ac yn ddeniadol, lle mae cyfleoedd cynaliadwy gan unigolion i wella eu hiechyd, eu sefyllfa ariannol a'u lles a

- lle y mae teimlad cryf o gymuned a grwpiau ac unigolion lleol sy'n meddu ar y gallu a'r brwdfrydedd i gyfrannu'n effeithiol i ddyfodol a statws cynaliadwy'r ardal.
7. Fel rhan o'i Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2010-2014, y mae'r Cyngor wedi egluro'r math o ethos y mae am ei sefydlu a'r gwerthoedd craidd a fydd yn ei gynnal. Y gwerthoedd craidd hyn yw:
- Canolbwyntio ar y cwsmer – sicrhau bod y cwsmer yn brif flaenoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau.
 - Gweithredu'n onest – rhedeg busnes egwyddorol a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd amlwg ac atebol er lles y cyhoedd.
 - Gwella'n gyson – gwella gwasanaethau drwy chwilio am ffyrdd arloesol ac effeithiol o wella ansawdd a dod yn fwy cost-effeithiol.
 - Cynnwys pobl eraill – cydweithio â phob math o wahanol asiantaethau a phobl yn y maes, gan ymgynghori â'r gymuned a'i chynnwys wrth ddod i benderfyniadau a darparu gwasanaethau, er mwyn cael cysylltu o ddifrif â materion lleol.
 - Gweithredu'n deg - sicrhau y caiff dinaswyr yr un tegwch a chyfle wrth ddefnyddio gwasanaethau a thriniaeth gyson a chydadd yn eu holl ymwneud â'r Cyngor.
8. Mae'n rhaid wrth wasanaeth Cymraeg effeithiol ac effeithlon er mwyn sefydlu'r gwerthoedd craidd yma. Drwy sicrhau bod gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac y caiff pobl ddewis yr iaith y maent am ei defnyddio, bydd y Cyngor yn dangos ei fod o ddifrif ynglŷn â rhoi blaenoriaeth i'r cwsmer. Drwy roi cyfle teg i bawb ddefnyddio gwybodaeth, a thrwy ymgynghori â phobl a'u cynnwys mewn penderfyniadau, bydd y Cyngor yn dangos ei fod o ddifrif am weithredu'n deg, cynnwys pobl a gwella'n gyson.
9. Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac yn annog siaradwyr Cymraeg sy'n byw, yn gweithio neu'n treulio amser yn y Fro i gymryd rhan ym mywyd diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol y gymuned. Bydd yn cyflawni hyn drwy:
- hysbysu aelodau o'r cyhoedd ac ymgynghori â hwy yn eu dewis iaith;
 - ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg ar gyfer y cyhoedd;
 - annog a galluogi trigolion ac ymwelwyr i ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'u dewis personol;
 - ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg;
 - alluogi staff rheng flaen ac aelodau allweddol eraill o'r staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol er mwyn cyrraedd y nodau hyn.
10. Roedd Cyfrifiad 2001 yn mesur gwybodaeth trigolion y Fro o'r Gymraeg a'u gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith.

	% (Y Fro)	% (Cymru)
Dim gwybodaeth o'r Gymraeg	83.1	71.6
yn deall Cymraeg llafar yn unig	2.9	4.9
yn siarad Cymraeg ond yn methu â'i darllen	1.6	2.8

na'i hysgrifennu		
yn siarad Cymraeg ond yn methu â'i darllen na'i hysgrifennu	0.7	1.4
yn siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	8.8	16.3
Cyfuniadau eraill o sgiliau	2.9	3.0

11. Mesur gallu unigolion i siarad Cymraeg yr oedd cyfrifiad 1991. Y ffigur ar gyfer y Fro ym 1991 oedd 6.9%. (18.7% oedd y ffigur ar gyfer Cymru gyfan). 11.1% oedd y ffigur ar gyfer y Fro yn 2001. Ers hynny, y mae nifer y rhai sy'n dweud eu bod yn medru'r Gymraeg wedi cynyddu'n sylweddol (18.3% oedd hi yn 2009 yn ôl yr Arolwg Blynyddol ar y Boblogaeth a luniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Serch hynny, dylid trin y ffigur hwn yn ofalus am ei fod o bosibl yn cynnwys dysgwyr heb afael sicr ar yr iaith.
12. Cymeradwywyd ail Gynllun Iaith Cyngor Bro Morgannwg ym Mawrth 2008, a daethpwyd i ben â'r rhan fwyaf o gamau gweithredu. Mae'r manylion i'w cael yn yr adroddiadau monitro blynyddol sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.
13. Mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau er mwyn gwella ei wasanaethau Cymraeg:
 - Comisiynwyd adroddiad yn 2009 oddi wrth Gwmni Iaith a oedd wedi dadansoddi sgiliau, dulliau rheoli a'r defnydd o'r Gymraeg yn y Cyngor. Mae nifer o gamau a gynigiwyd yn yr adroddiad hwn na chawsant eu cyflawni, wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu.
 - Lluniodd Cwmni Iaith adroddiad manwl iawn yn ystod yr un flwyddyn a ganolbwyntiai ar wasanaethau hamdden. Cafodd y camau a oedd yn weddill o'r adroddiad hwnnw hefyd eu cynnwys yn y cynllun gweithredu newydd. Rydym wedi gwella ein cysylltiadau â Menter y Fro a'r Urdd.
 - Ar ôl gyrru cais llwyddiannus i Gytundeb Partneriaeth Awdurdodau Lleol y mae digon o nawdd i gyflogi Swyddog Datblygu Chwaraeon Cymru yn ystod 2010/12 a 2011/12.
 - Lluniwyd Strategaeth Sgiliau Iaith ynghyd â chynllun gweithredu.
 - Cynhaliwyd archwiliad sgiliau er mwyn i reolwyr gael asesu lefel y Gymraeg yn eu timau.
 - Mae'r Cyngor wedi addo y bydd deg tudalen fwyaf poblogaidd ei wefan ar gael yn y Gymraeg bob amser. Rydym yn cyflogi cyfieithydd mewnol ar gyfer y we er mwyn sicrhau bod tudalennau Cymraeg y wefan yn cael eu diweddarau bob amser.
 - Bydd dogfennau a gohebiaeth yn cael eu cyfieithu'n fewnol er mwyn sicrhau safon y Gymraeg a ddefnyddir.
 - Drwy barhau i ddatblygu Canolfan Gyswllt y Cyngor, yr ydym wedi helpu cwsmeriaid i gysylltu'n effeithiol â ni dros y ffôn, wyneb yn wyneb, drwy neges e-bost, ar y rhyngwrdd, drwy neges destun fer ac â llythyr.
 - Cafodd y gwasanaeth ei hysbysebu'n helaeth yn yr ardal drwy'r ymgyrch 'Mae gen ti ddewis'. Gwnawn yr un peth yn ystod 2011/12 os bydd nawdd ar gael.
 - Byddwn yn cynnig sesiynau hyfforddi i staff uwch ac aelodau etholedig yn ogystal â staff rheng flaen yn rheolaidd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
 - Bydd staff yn cael cynnig sesiynau 'Magu Hyder' a 'Choffi a Chlonc' er mwyn meithrin eu sgiliau.

- Bydd proses sy'n trafod cwynion a sylwadau oddi wrth aelodau o'r cyhoedd hefyd yn cofnodi problemau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
 - Mae dyfais ar gyfer asesu effaith gyffredinol y cyngor (gan gynnwys ei effaith o safbwynt y Gymraeg) wedi'i mabwysiadu, a bydd holl bolisiâu'r Cyngor yn cael eu hasesu am eu heffaith.
 - Mae'r Gymraeg yn un o'r ystyriaethau yng Nghynllun Cydraddoldeb y Fro.
 - Dosbarthwyd canllawiau i bob adran er mwyn atgoffa'r staff o'u dyletswyddau o dan y Cynllun. Caiff y rhain eu diweddarau a'u dosbarthu unwaith eto fel rhan o'r cyhoedduswydd ar gyfer y cynllun newydd.
14. Mae'r Cyngor wedi addo darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ein hymrwymiad i gynnig dewis iaith wedi'i gynnwys yn y safonau gwasanaeth corfforaethol. Bydd canllawiau gofal cwsmeriaid sy'n pwysleisio dull o weithredu a seiliwyd ar anghenion y cwsmer, yn cael eu dosbarthu i staff. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai pobl fod o dan anfantais o beidio â chael y cyfle i gyfathrebu â staff yn eu hiaith frodorol.
15. Lluniwyd y cynllun hwn yng nghyd-destun y fframweithiau polisi iaith cenedlaethol a rhyngwladol a'r ddeddfwriaeth berthnasol ganlynol:
- Y Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol
 - Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Llywodraeth Leol
 - Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae'r cynllun hefyd yn cymryd y Mesur Iaith Gymraeg newydd i ystyriaeth.

16. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb mewnol ar gyfer y Fro er mwyn cael darparu'n well yn gyson ar gyfer cydraddoldeb o safbwynt y Gymraeg, hil, rhyw ac anabled, wrth gyflogi staff a chyflwyno gwasanaethau.
17. Buom yn paratoi ar gyfer llunio'r Cynllun Iaith hwn, drwy drefnu i gwmni ymchwil farchnata annibynnol gynnal cyfres o grwpiau ffocws gyda siaradwyr Cymraeg yn y Fro. Y diben oedd cael gwybod sut yr oedd y cyhoedd yn gweld gwasanaeth Cymraeg y Cyngor a nodi gofynion rhai yn y maes wrth ddatblygu'r gwasanaeth hwnnw.
18. Nod yr ymchwil oedd archwilio barn trigolion y Fro am ddarpariaeth Gymraeg bresennol y Cyngor a'u disgwyliadau ar gyfer y dyfodol. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws ar gyfer siaradwyr Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg. Defnyddiwyd yr ymchwil er mwyn cyfoethogi'r broses o ddatblygu'r cynllun.
19. Datblygodd y Cyngor ei strategaeth Sgiliau Iaith yn ystod 2010 gyda chymorth Sbectrwm ac yr oedd yn cynnwys cyfraniad oddi wrth Bennaeth Adnoddau Dynol. Cafodd ei chymeradwyo gan y Tîm Rheoli Corfforaethol yn Ebrill 2011.

CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU

Polisiâu a chynlluniau newydd

20. Byddwn yn ystyried pob un o bolisiâu'r Cyngor o safbwynt ei effaith ar faterion sy'n ymwneud â chydaddoldeb (gan gynnwys y Gymraeg) wrth i ni lunio adroddiadau. Bydd hyn, a gwaith monitro rheolaidd gan dîm cydraddoldeb y Cyngor yn sicrhau bod ein polisiâu'n cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg a chynlluniau iaith eraill.
21. Bydd polisiâu a dulliau gweithredu eraill y Cyngor hefyd yn cael eu hasesu am eu heffaith ar gydraddoldeb o safbwynt y grwpiau sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fel rhan o'r broses asesu effaith hon, bydd y Cyngor hefyd yn ystyried yr effaith ar y Gymraeg. Bydd polisiâu a chynlluniau newydd yn cael eu llunio er mwyn hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ble bynnag y bo hynny'n ymarferol ac yn rhesymol.
22. Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod polisiâu a chynlluniau newydd yn cydymffurfio â'r cynllun hwn. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn cynnig unrhyw bolisiâu a allai hyd y gwyddai, effeithio ar gynlluniau iaith sefydliadau eraill.
23. Bydd y mesurau yn y cynllun hwn yn cael eu cymhwyso at bolisiâu a chynlluniau newydd wrth eu gweithredu.
24. Ni fyddwn yn newid y cynllun hwn heb ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Serch hynny, byddwn yn newid y cynllun gweithredu o bryd i'w gilydd er mwyn cymryd y broses fonitro i ystyriaeth. Bydd yr adroddiad monitro blynyddol yn tynnu sylw at unrhyw newidiadau.
25. Bydd y Cyngor yn datblygu polisiâu a chynlluniau newydd ac yn diweddarau rhai eraill ar hyd yr amser er mwyn cael cyrraedd ei nodau. Bydd y rhain ar gael i aelodau o'r cyhoedd, ac fel arfer yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.
26. Bydd dogfennau strategol **sydd o ddiddordeb cyffredinol ond heb fod yn dechnegol** yn cael eu llunio yn y ddwy iaith. Enghreifftiau o'r math hwn o ddogfen yw'r Strategaeth Gymunedol a'r Cynllun Corfforaethol.
27. Ni fydd angen cyflwyno dogfennau strategol **sydd o ddiddordeb penodol ac/neu'n dechnegol eu naws** yn ddwyieithog. Serch hynny, pan na fydd y ddogfen lawn yn cael ei chyflwyno'n ddwyieithog, bydd angen llunio fersiwn cryno neu weithredol ohoni yn y ddwy iaith a'i ddosbarthu ochr yn ochr â'r ddogfen wreiddiol un ai ar wefan y Cyngor neu drwy ryw ddull arall a all sicrhau y caiff ei ddosbarthu'n helaeth. Enghraifft o'r dogfennau strategol hyn yw Cynllun Gwella'r Cyngor.
28. Lluniwyd canllawiau ar gyfer staff, sy'n egluro'r pwyntiau uchod, a bydd archwiliad yn cael ei gynnal bob blwyddyn er mwyn asesu a fo dogfennau strategol neu fersiynau cryno ohonynt ar gael i'r graddau sy'n ofynnol o dan y Cynllun Iaith.

Darparu gwasanaethau

29. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar Strategaeth Sgiliau Iaith a fydd yn:
- helpu i sicrhau bod y Cynllun Iaith yn cael ei weithredu wrth recriwtio staff i swyddi yn y gwasanaethau cyhoeddus;
 - sicrhau bod sgiliau iaith y gweithlu'n cael eu meithrin er mwyn i'r Cyngor barhau i gyflawni ei ddyletswyddau o dan ei Gynllun Iaith;
 - sicrhau bod digon o staff ar gael i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ar gyfer y cyhoedd.
30. Bydd rheolwyr yn gallu defnyddio'r archwiliad o sgiliau iaith staff i nodi a chynllunio ar gyfer bylchau yn eu timau. Bydd hyfforddiant ar gyfer recriwtio a dewis staff yn ymgorffori asesu'r angen am gynnwys sgiliau iaith yn y fanyleb bersonol. Bydd y Strategaeth Hyfforddi'n targedu meysydd penodol lle y mae angen datblygu sgiliau Cymraeg.

Safon y gwasanaeth Cymraeg

31. Mae'r Cyngor wedi gosod safonau ar gyfer gwasanaethau Cymraeg a Saesneg sy'n cynnwys:
- ateb llythyrau cyn pen 10 niwrnod gwaith;
 - ateb galwadau ffôn cyn pen 6 chaniad a negeseuon cyn pen 5 niwrnod gwaith;
 - ateb negeseuon e-bost cyn pen 5 niwrnod gwaith;
 - ymdrechu i ateb ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth cyn pen 20 niwrnod gwaith o'u derbyn.
 - ateb galwadau yn y Ganolfan Gyswllt cyn pen 45 eiliad ar gyfartaledd.

Bydd y Cyngor yn adolygu ei strategaethau Cysylltiadau Cwsmeriaid a Sianeli Cyswllt yn ystod 2011 ac yn adolygu'r targedau uchod fel rhan o'r broses honno.

32. Er mwyn cynnal ei safonau, y mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau na fydd unrhyw drefniadau ar gyfer cyfathrebu â'r awdurdod yn Gymraeg a Saesneg yn llesteirio ei waith.
33. Bydd angen cyflwyno gwybodaeth a gweithgareddau ymgynghori mewn gwahanol fformatiau gan ddibynnu ar y pwnc ac a fo'r mater dan sylw o ddiddordeb cyffredinol ynteu'n dechnegol.
34. Bydd gwybodaeth a gweithgareddau ymgynghori a ddylai gael eu cyflwyno yn Gymraeg a Saesneg fel arfer yn cael eu darparu'n **ddwyieithog**. Dogfennau dwyieithog sy'n cynnwys y fersiynau Cymraeg a Saesneg **yn yr un ddogfen**. Mae modd cynhyrchu deunydd dwyieithog un ai mewn fformat 'plygu a throi' neu fformat sy'n cynnwys y ddwy iaith ar yr un dudalen. Dogfennau dwyieithog sydd fwyaf addas ar gyfer cyrraedd y safon gwasanaeth sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth ar sail gyfartal.
35. Ni fydd fersiwn dwyieithog o unrhyw ddogfen yn ddrutach na'r fersiwn uniaith.
36. Serch hynny, pan fydd cronfa ddata ar gael sy'n nodi pa iaith yn union y mae'r gwahanol ddefnyddwyr gwasanaethau am ei defnyddio, gellir darparu

gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg ar wahân, gyda fersiwn uniaith Gymraeg ar gyfer y siaradwyr Cymraeg a fersiwn uniaith Saesneg ar gyfer y siaradwyr Saesneg. Pan fydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu darparu ar wahân, byddwn yn eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd ac yn gwneud ein gorau i sicrhau bod y naill a'r llall yr un mor hawdd cael gafael ynddo. Ni fydd fersiwn Cymraeg o unrhyw ddogfen yn ddrutach na'r fersiwn Saesneg.

YMDRIN Â'R CYHOEDD CYMRAEG EI IAITH

37. Awydd am weddnewid busnes sydd wrth graidd rhaglen UnFro'r Cyngor, a gwneir hyn drwy: roi technolegau a phrosesau arloesol ar waith, annog cydweithredu a chanolbwyntio ar wasanaethu'r cwsmer ac ar sicrhau bod gwasanaethau'n haws eu defnyddio.
38. Mae gan y Cyngor ddwy strategaeth bwysig sy'n egluro ei uchelgeisiau a'i amcanion ar gyfer ymdrin â'r cyhoedd sef - Strategaeth Cysylltiadau Cwsmeriaid 2010 a Strategaeth Sianeli Cyswllt 2010.
39. Deall yr union alw am wasanaethau sy'n dod i'r Cyngor drwy wahanol sianeli cyswllt oddi wrth grwpiau o gwsmeriaid yw nod Strategaeth Cysylltiadau Cwsmeriaid 2010. Bydd y Cyngor yn ceisio deall yn union lle y mae'r galw mwyaf am wasanaethau Cymraeg ac yn targedu adnoddau yn ôl y gofyn.
40. Nod amlwg Strategaeth Sianeli Cyswllt 2010 yw sicrhau bod cwsmeriaid yn cael atebion i'w hymholiadau heb orfod cysylltu ag unrhyw un arall, a'u bod yn gwneud hynny drwy'r sianeli rhataf a mwyaf addas posibl. Byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth a'r gwasanaethau trafodol y bydd y Cyngor yn eu darparu ar ei wefan ar gael yn Gymraeg. Pan na fydd yn well cysylltu ar y wefan, byddwn yn sicrhau bod y tair ffordd fwyaf poblogaidd o gysylltu sef – ffonio, cyfarfod wyneb yn wyneb ac anfon neges e-bost - ar gael i'r cwsmer yn Gymraeg o'r cychwyn.
41. Rydym wedi rhoi proses gwyno gorfforaethol ar waith sy'n sicrhau gwell ffordd o gasglu data a gwell gwybodaeth rheoli. Mae'n mynnu bod gwasanaethau'n nodi'r hyn y maent wedi'i ddysgu oddi wrth gwynion cwsmeriaid a'r camau a gymerwyd er mwyn gwarchod rhag denu'r un math o gwynion yn y dyfodol. Bydd y drefn hon yn helpu i sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth gwynion ynglŷn â gwasanaethau Cymraeg a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith ac yn cymryd camau priodol yn y tymor hir i wella'r sefyllfa.
42. Mae nifer o aelodau o staff Cymraeg eu hiaith wedi cael eu cyflogi fel asiantwyr cwsmeriaid yng Nghanolfan Gyswllt UnFro. Mae'r Cyngor wedi addo sicrhau bod y lefel hon o staffio'n parhau yn y dyfodol.

Gohebiaeth

43. Mae'r Cyngor wrth ei fodd yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Caiff gohebiaeth yn Gymraeg, ei hateb yn Gymraeg. Byddwn yn caniatáu'r un amser yn union ar gyfer ateb gohebiaeth Gymraeg a Saesneg. (Gweler y rhestr yn safonau'r Cyngor ym mharagraff 31 uchod). Bydd y Cyngor yn trafod negeseuon e-bost yn union yr un ffordd.
44. Pan wyddwn ei bod yn well gan unigolyn neu sefydliad gael ei wybodaeth yn Gymraeg neu ei fod fel arfer yn defnyddio'r Gymraeg, byddwn yn gohebu ag ef yn Gymraeg.
45. Byddwn yn sicrhau bod gan staff sy'n gyfrifol am ohebu yn Gymraeg gopi o Eiriadur yr Academi a meddalwedd gwirio sillafu Cymraeg (Cysill).

Ffonio

46. Trafod 80% o'r holl alwadau ffôn sy'n dod i Ganolfan Gyswllt UnFro heb drosglwyddo'r cwsmer, yw'r targed ar hyn o bryd. Mae gan staff y Ganolfan Gyswllt restr o siaradwyr Cymraeg a fedr drafod ymholiadau penodol rhag ofn y bydd angen cyfeirio unrhyw ymholiadau Cymraeg i'r swyddfa gefn.
47. Bydd y gwasanaeth Cymraeg yn cael ei hysbysebu ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bu'r Cyngor yn hyrwyddo ei wasanaeth Cymraeg yn ddiweddar ar y cyd â Menter y Fro a Bwrdd yr Iaith Gymraeg drwy'r prosiect 'Mae gen ti ddewis'.
48. Byddwn yn parhau i fonitro'r Gwasanaeth Cymraeg pwrpasol er mwyn cael amcan o'r defnydd a wneir o wasanaethau a natur yr ymholiadau.

Derbynfeydd

49. Bydd y Cyngor yn darparu nifer o dderbynfeydd er mwyn helpu'r cyhoedd i ddefnyddio gwasanaethau. Byddwn yn gofyn i bob rheolwr sy'n gyfrifol am staff rheng flaen (sef rhai'r tu ôl i ddesgiau arian parod y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd, canolfannau hamdden ac ati), asesu gallu'r tîm i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg. Pan fydd angen wedi'i nodi, bydd y fanyleb bersonol yn cynnwys y Gymraeg fel gofyn hanfodol ar gyfer y swydd. Bydd y fanyleb hefyd yn egluro'r union gymwyseddau sydd eu hangen ar gyfer cyflawni'r swydd.
50. Y rheol arferol yw sicrhau bod o leiaf un aelod o staff ym mhob derbynfa'n gallu siarad Cymraeg. Pan fydd angen aelod o staff mewn derbynfa lle nad oes unrhyw siaradwyr Cymraeg, bydd y swydd yn cael ei hysbysebu fel un lle y mae'r Gymraeg yn hanfodol. Bydd staff sy'n gweithio mewn prif swyddi derbynfa ar hyn o bryd yn dilyn hyfforddiant er mwyn gwella eu sgiliau Cymraeg. Caiff anghenion hyfforddi eu nodi gan reolwyr yn ystod y broses adolygu datblygiad proffesiynol, a bydd rheolwyr hefyd yn gyfrifol am ddarparu'r hyfforddiant (mae manylion gan dîm cydraddoldeb) ac am fonitro cynnydd yn rheolaidd.

Cyfarfodydd cyhoeddus

51. Diffinnir cyfarfod cyhoeddus fel cyfarfod agored sy'n cael ei drefnu er mwyn i aelodau o'r cyhoedd gael dysgu am fater penodol a mynegi barn amdano. Bydd yn agored i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n ymddiddori yn y pwnc dan sylw.
52. Ni fyddwn yn aml yn defnyddio cyfarfodydd cyhoeddus fel ffordd o ymgynghori, am na fyddant fel arfer yn denu llawer o bobl. Ni fydd barn na phryderon rhai sy'n eu mynychu chwaith fel arfer yn cynrychioli teimlad y boblogaeth yn gyffredinol.
53. Serch hynny, pan fyddwn yn eu defnyddio, a'r cyhoedd yn cael ei wahodd i drafod mater o ddiddordeb cyffredinol (y trafodaethau blynyddol ar gyflwr yr ardal, er enghraifft), byddwn yn cynnig cyfleusterau cyfieithu ymlaen llaw. Gwnawn hynny hyd yn oed pan mai cyfarfod mewn un ardal neu ar gyfer un

grŵp oedran yn unig sy'n cael ei gynnal. Mae'n rhaid i'r cyhoedduswydd ar gyfer y cyfarfod fod yn ddwyieithog. Mae'n rhaid i ddatganiadau i'r wasg gael eu hanfon i weisg Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd yn y fformat priodol (gweler yr adrannau am ddatganiadau i'r wasg a hysbysiadau cyhoeddus).

Cyfarfodydd eraill

54. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb ag aelodau o'r cyhoedd i bob math o ddibenion e.e. wrth drefnu gofal cymdeithasol, trin ceisiadau am fudd-dal, cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau, trafod ymholiadau am dai ac ati. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai aelodau o'r cyhoedd weithiau fod o dan anfantais o fethu â chael defnyddio eu dewis iaith h.y. petaent yn sâl neu o dan bwysau, er enghraifft.
55. Bydd staff yn gwneud pob ymdrech i drefnu ar gyfer siaradwyr Cymraeg sy'n cyfarfod â'r Cyngor wyneb yn wyneb, wrth gownteri, ar safleoedd ac yn eu cartrefi eu hunain. Bydd hyn yn wir yn arbennig pan wyddwn eisoes fod y person yn siarad Cymraeg neu os rhoddodd wybod i ni cyn y cyfarfod ei fod am ddefnyddio'r iaith. Wrth drefnu cyfarfodydd neu gyfweiliadau ag aelodau o'r cyhoedd, dylai swyddogion neu staff y ganolfan gyswilt fynnu cael gwybod pa iaith y mae pobl am ei defnyddio. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod swyddog dwyieithog neu gyfieithydd bob amser ar gael i ddarparu ar gyfer hynny.

Ymwneud â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill

Yn gyffredinol

56. Mae aelodau o'r cyhoedd am wybod pa gynghorwyr dwyieithog a fyddai'n fodlon trafod materion yn Gymraeg. Caiff y wybodaeth hon ei hadolygu fel rhan o'r Archwiliad Sgiliau a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn y wasg Gymraeg. Byddwn yn annog cynghorwyr i hysbysebu hyn ar eu gwefannau eu hunain ac yn eu cyfarfodydd ymgynghori lleol ac ati, pan fo hynny'n briodol.

WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR

57. Mae'r Cyngor yn credu y dylai fod yn amlwg wrth ei ddelwedd a'i wyneb cyhoeddus, ei fod yn defnyddio dwy iaith yn y gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Bydd yn dilyn yr egwyddor hon yn benodol wrth ddarparu gwybodaeth safonol . Byddwn yn cymell dull dwyieithog o weithredu ac yn creu amgylchedd sydd o gymorth i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu dewis iaith. Yn ymarferol, proses raddol fydd y newid arfer hwn, wrth i ni ddatblygu neu ailosod arwyddion a gwybodaeth. Byddwn yn annog ein partneriaid, cyflenwyr a chontractwyr hefyd i fynd i'r afael â'r newid arfer hwn.

Hunaniaeth gorfforaethol

58. Mae hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn dangos ein bod o ddifrif am ddefnyddio Cymraeg a Saesneg. Mae logos swyddogol, papur pennawd, sliopiau cyfarch, cardiau busnes ac ati, i gyd yn ddwyieithog. Bydd y timau Cyfathrebu a Chydraddoldeb yn sicrhau y caiff unrhyw ddeunydd sydd heb ei gymeradwyo ei hepgor.
59. Rydym hefyd wedi addo sicrhau bod gan staff Cymraeg eu hiaith droedynnau e-bost dwyieithog a doddi arwyddion a bathodynau mewn manau amlycach. Sylwadau o'r grwpiau ffocws a fu'n gyfrifol am y cam gweithredu hwn.

Arwyddion cyffredinol

60. Mae'r Cyngor yn credu y dylai ei ddelwedd a'i wyneb cyhoeddus ddangos bod ei gymuned yn ddwyieithog. Pan fydd arwyddion yn ddwyieithog neu'n cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y wybodaeth Gymraeg a Saesneg o'r un maint ac ansawdd, yr un mor amlwg a'r un mor hawdd ei darllen. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â ffurf arwyddbyst ac arwyddion traffig ac enwau lleoedd, ac wrth benderfynu pryd yn union y mae'n addas defnyddio un enw'n unig.
61. Bydd pob arwydd sy'n cael ei osod am y tro cyntaf neu'i ailosod gan y Cyngor yn ddwyieithog. Deuwn i ben â hyn drwy broses o ailosod ac adnewyddu. Lluniwyd strategaeth er mwyn ailosod arwyddion uniaith fel mater o flaenoriaeth.

Arwyddion adeiladau

62. Bydd pob arwydd sy'n cael ei osod am y tro cyntaf neu'i ailosod ar gyfer y cyhoedd ar adeiladau cyhoeddus y Cyngor (sef swyddfeydd, ysgolion, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, cartrefi gofal preswyl, toiledau cyhoeddus ac ati) yn ddwyieithog. Mae'n bosibl y bydd ambell i adeilad heb unrhyw arwyddion Cymraeg na Saesneg o gwbl, sef llochesau menywod, canolfannau ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio alcohol a chyffuriau, er enghraifft. Bydd arwyddion parciau'n ddwyieithog. Bydd arwyddion mewn manau lle y mae adeiladau cyhoeddus ar agor i'r cyhoedd hefyd yn ddwyieithog.

63. Llywodraethwyr ysgolion a fydd yn gyfrifol am ailosod arwyddion a gosod arwyddion newydd mewn ysgolion. Bydd y Cyngor yn annog ysgolion i ddarparu arwyddion dwyieithog.

Arwyddion Hanesyddol ac Arwyddion i Ymwelwyr

64. Dylai pob arwydd y bydd y Cyngor yn ei gomisiynu er mwyn cyfeirio pobl at ddigwyddiadau a safleoedd hanesyddol/o ddiddordeb i ymwelwyr, fod yn ddwyieithog, os oes modd. Gwneir eithriad yn achos enwau Cymraeg neu Saesneg sydd wedi'u hen arfer ar ffurf uniaith ac yn gyfarwydd i bobl ar y ffurf honno.
65. Deuwn i ben â hyn drwy broses o ailosod ac adnewyddu. Mae trefniadau ar gael i ailosod arwyddion uniaith fel mater o flaenoriaeth.

Enwau Lleoedd

66. Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i gadw rhestrau cyfredol a manwl gywir o enwau trefi, pentrefi, cymunedau a wardiau etholiadol yn ogystal â datblygiadau newydd. Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cadw rhestr safonol a manwl gywir o'r rhain, gan ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â ffurfiau safonol ar enwau lleoedd pan fo hynny'n briodol.

Arwyddion Stryd

67. Er bod gan y Cyngor hawl i benderfynu ar enwau strydoedd, y mae'n cydnabod pwysigrwydd barn pobl leol. Wrth godi arwyddion stryd, gan gynnwys rhai ar gyfer strydoedd a datblygiadau newydd, bydd y Cyngor yn ymgynghori ag aelodau etholedig, cynghorau tref a chymuned, datblygwyr, Swyddfa'r Post a phobl leol, ac yn cymryd eu barn i ystyriaeth pan fo hynny'n bosibl. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu nodyn canllaw sy'n egluro'n union sut y dylid cytuno ar arwyddion stryd ac enwau lleoedd.
68. Y polisi wrth enwi strydoedd a datblygiadau **newydd** fydd mabwysiadu enw sy'n gydnaws â threftadaeth a hanes yr ardal a defnyddio'r Gymraeg fel y bo'n briodol. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn sicrhau bod yr enwau strydoedd Cymraeg yn ramadegol gywir. Bydd enwau ac arwyddion strydoedd yn defnyddio un iaith yn unig er mwyn arbed dryswch.
69. Wrth **ailosod** arwyddion stryd, bydd y rhai cynhenid yn cael aros yn yr iaith gyfarwydd.

Arwyddion Traffig dros dro

70. Bydd arwyddion traffig dros dro o eiddo'r Cyngor yn dal i gael eu codi'n ddwyieithog. Byddwn yn annog contractwyr sy'n codi arwyddion dros dro i'w codi'n ddywieithog. Bydd hyn yn un o ofynion anhepgor y broses contractio.

Cyhoeddiadau a ffurflenni

71. Bydd gwybodaeth a gweithgareddau ymgynghori **ar gyfer y cyhoedd sydd o ddiddordeb cyffredinol** yn cael eu darparu'n ddwyieithog. Enghreifftiau o hyn

yw cardiau sylwadau mewn lleoliadau hamdden a chefn gwlad, cylchlythyr Treth y Cyngor, llyfrynnau i ymwelwyr ac arolygon barn gyhoeddus.

72. Fel arfer bydd gwybodaeth a gweithgareddau ymgynghori technegol ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol, yn cael eu cyflwyno yn Saesneg yn unig, er y gellir eu darparu yn Gymraeg. Os mai cynnig dogfen Gymraeg ar gais yn unig yw'r bwriad, dylai'r ddogfen Saesneg ddatgan hynny ac egluro sut yn union i fynd ati.
73. Bydd gwybodaeth a gweithgareddau ymgynghori ***o ddiddordeb cyffredinol ar gyfer grwpiau penodol*** yn ddwyieithog ***onibai*** fod cronfa ddata wedi'i sefydlu sy'n cynnwys manylion am yr iaith y mae gwahanol unigolion y grŵp am ei defnyddio. Os oes cronfa ddata ar gael sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd (bob blwyddyn o leiaf), dylai gwybodaeth gael ei darparu a'i dosbarthu bob amser yn yr iaith y mae'r unigolion sydd wedi'u cofnodi am ei defnyddio.
74. Bydd gwybodaeth a gwaith ymgynghori ***technegol ar gyfer grwpiau penodol*** yn cael eu cyflwyno yn Saesneg yn unig.
75. Pan fydd ***grwpiau penodol*** yn hysbys i'r sawl a luniodd y wybodaeth/gwaith ymgynghori, a phan fydd enwau, cyfeiriadau a manylion personol eraill am gwsmeriaid/gleientiaid yn hysbys, gall dewis iaith pawb gael ei nodi mewn cronfa ddata un ai ar bapur neu mewn fformat electronig. ***Y cyhoedd yn gyffredinol*** yw trigolion/ymwelwyr nad ydynt yn perthyn i grwpiau penodol. Gall y term 'cyhoedd yn gyffredinol' gynnwys grwpiau oedran penodol a gellir ei ddefnyddio wrth dargedu ardal benodol. Pan nad yw'r unigolion dan sylw'n hysbys i luniwr y wybodaeth/gwaith ymgynghori, byddwn yn cyfeirio atynt fel y cyhoedd yn gyffredinol.
76. ***Mater technegol*** yw unrhyw wybodaeth mewn iaith dechnegol na fydd y cyhoedd yn gyffredinol yn ei harfer, gwybodaeth wyddonol a chyfrifiadau. ***Nid*** deunydd technegol yw jargon, ac ni ddylid ei ddefnyddio chwaith wrth gyfathrebu â'r cyhoedd yn gyffredinol na grwpiau penodol. Gwybodaeth/gwaith ymgynghori ***o ddiddordeb cyffredinol*** yw unrhyw wybodaeth nad yw'n dechnegol.
77. Bydd y matrices canlynol yn helpu i egluro'r strwythur hwn:

Cynulleidfa		Math o wybodaeth	
		O ddiddordeb cyffredinol	Deunydd technegol
	Y cyhoedd yn gyffredinol	deunydd yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog	yn cael ei gyhoeddi fel arfer yn Saesneg yn unig
	Grwpiau penodol	deunydd yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog onibai fod cronfa ddata wedi'i sefydlu sy'n nodi'r iaith y mae unigolion am ei defnyddio. Os felly, bydd deunydd yn cael ei ddsbarthu yn yr iaith sydd wedi'i nodi.	deunydd yn cael ei gyflwyno yn Saesneg yn unig.

78. Dylid defnyddio'r matrices uchod wrth asesu gofynion ieithyddol:
- Cylchlythyrau
 - Tafenni a phamffledi
 - Deunydd hyrwyddo
 - Llyfrynau
 - Canllawiau
 - Poster
 - Ffurflenni a chyfarwyddiadau
 - Gweithgareddau ymgynghori
 - Dogfennau strategol
79. Mae cynllun cyhoeddiadau wedi cael ei lunio ar gyfer staff a'i gyflwyno iddynt er mwyn eu helpu i gyhoeddi deunydd yn y fformat cywir. Pan na fydd gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi yn Gymraeg fel mater o arfer, byddwn yn ystyried pob cais unigol am gyfieithiad yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor.
80. Byddwn yn archwilio cyhoeddiadau a dogfennau'r Cyngor er mwyn asesu safon cynhyrchu deunydd ar hyn o bryd. Caiff yr archwiliad ei drefnu gan Dîm Cyfathrebu'r Cyngor a'i gynnal bob blwyddyn er mwyn asesu ansawdd deunydd printiedig a chydymffuriad â'r Cynllun Iaith.
81. Bydd gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr y Gymraeg yn benodol yn cael ei chyflwyno yn Gymraeg yn unig. Enghreifftiau o hyn yw ymgynghoriadau ynglŷn â gwasanaethau Cymraeg neu wybodaeth am y ddarpariaeth yn Gymraeg.

82. Mae Cynllun Addysg Gymraeg wedi'i lunio ar wahân ac y mae ar gael yn ddwyieithog.

Hysbysiadau i'r wasg

83. Bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu darparu:

- yn Saesneg ar gyfer y wasg Saesneg;
- yn Gymraeg ar gyfer y wasg Gymraeg;
- yn ddwyieithog ar gyfer y cyfryngau Gymraeg a Saesneg.

84. Ychydig iawn sy'n cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg gan wasg leol Bro Morgannwg. Bydd datganiadau ar gyfer y wasg leol yn bennaf yn cael eu darparu yn Saesneg.

85. Bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog pan fydd stori'n debyg o ennyn diddordeb y wasg genedlaethol neu gael ei defnyddio gan y wasg genedlaethol. Bydd storïau ar gyfer cynulleidfa Gymraeg yn cael eu cyflwyno i'r cyfryngau Gymraeg yn y Gymraeg.

86. Pan fydd y cyfryngau Gymraeg am gyfweld â rhywun, byddwn yn gwneud ein gorau glas i gynnig siaradwr Gymraeg sydd wedi'i hyfforddi ar gyfer y cyfryngau. Ni fyddai unrhyw ddiben cynnig siaradwr Gymraeg na wyddai unrhyw beth am y pwnc dan sylw.

87. Pan fydd y cyfryngau Gymraeg yn gofyn am ymateb ysgrifenedig i gais gan y cyfryngau, bydd yr ymateb hwnnw yn Gymraeg.

Cyhoeddusrwydd, hysbysebion ac arddangosfeydd

88. Mae'n rhaid i ddeunydd hysbysebu a marchnata ar gyfer y cyfryngau Gymraeg gael ei lunio yn Gymraeg. Mae'n rhaid i ddeunydd hysbysebu a marchnata ar gyfer y cyfryngau Saesneg gael ei lunio yn Saesneg.

89. Dylai pamffledi a deunydd hyrwyddo ddilyn y canllawiau uchod ar gyfer cyflwyno deunydd o ddiddordeb cyffredinol/deunydd technegol i'r cyhoedd yn gyffredinol a grwpiau penodol.

90. Dylai arddangosfeydd parhaol a gynlluniwyd ar gyfer eu defnyddio ar nifer o achlysuron, fod yn ddwyieithog. Caiff arddangosfa dros dro a gynlluniwyd ar gyfer ei defnyddio unwaith neu ddwy (dros gyfnod o 3 niwrnod yn unig ar y mwyaf) ei chyflwyno yn Saesneg yn unig ar gyfer cynulleidfa Saesneg ac yn Gymraeg yn unig ar gyfer cynulleidfa Gymraeg. Serch hynny, byddwn yn annog staff i lunio arddangosfeydd hollol ddwyieithog fel ymarfer da.

91. Pan fydd sefydliad allanol yn gofyn am le i gynnal arddangosfa'r tu fewn i un o adeiladau'r cyngor, byddwn yn ei annog i gyflwyno ei arddangosfa'n ddwyieithog.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio

92. Dylai hysbysiadau cyhoeddus sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol fod yn ddwyieithog onibai fod trefniadau wedi'u gwneud i'w cyhoeddi yn y gweisg

Cymraeg a Saesneg yn yr iaith briodol, yn union yr un pryd. Dylai hysbysiadau ar bolion lampau, hysbysfyrddau cyhoeddus ac ati hefyd fod yn ddwyieithog.

93. Gellir hysbysebu yn y wasg, mewn cylchgronau a manau eraill am gyflenwyr yn Saesneg yn unig (gweler hefyd yr adran am recriwtio staff).

Gwefan y Cyngor

94. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu System Rheoli Cynnwys er mwyn cael diweddarau ei wefan (www.bromorgannwg.gov.uk). Mae togl i'w weld bob amser ar dudalen flaen y wefan hon sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddewis rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r enw parh www.bromorgannwg.gov.uk wedi'i sefydlu ac yn cyfeirio defnyddwyr at y fersiwn Cymraeg o'r wefan.
95. Mae'r wefan Gymraeg yn gopi o'r fersiwn Saesneg, ac y mae'r Cyngor wedi ymrwmo i gyflwyno'r deg tudalen fwyaf poblogaidd o leiaf yn Gymraeg, a bydd yn gweithio i sicrhau bod pob rhan o'r wefan wedi'i throsi hyd at y drydedd haen. Bydd offer chwilio'r wefan Gymraeg i gyd yn Gymraeg.
96. Gwnawn bob ymdrech i ryddhau gwybodaeth bwysig yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd, er na fydd hynny bob amser yn bosibl ac y bydd oedi o bryd i'w gilydd. Rhoddwn flaenoriaeth i wybodaeth frys, diwygiadau ac eitemau newyddion a gweithgareddau.
97. Bydd gwybodaeth etholiadol a ffurflenni ar-lein yn ddwyieithog.
98. Byddwn yn cysylltu'n amlach â siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r wefan er mwyn cael nodi eu hanghenion presennol a'u hanghenion newidiol a hybu datblygiad parhaol.
99. Sefydlwn dudalen er mwyn crynhoi gwybodaeth yn barod ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol sydd i'w chynnal ym Mro Morgannwg yn 2012.

GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

Staffio

100. Drwy'r arolwg ar sgiliau iaith bydd rheolwyr yn cael gwybodaeth am y sgiliau yn eu timau. Byddant wedyn yn gallu cynllunio ar gyfer hyfforddi a recriwtio staff. Caiff y wybodaeth ei chofnodi ar system Oracle ochr yn ochr â'r data a gasglwyd ar gyfer dechreuwyr newydd. Yn y modd yma, deugn i wybod faint o adnoddau sydd ar gael.
101. Bydd yr arolwg ar sgiliau iaith a'r cyfarwyddiadau cysylltiedig o gymorth i reolwyr adnabod anghenion a newid disgrifiadau swyddi er mwyn darparu ar eu cyfer.
102. Bydd y Cyngor yn cynnwys y wybodaeth ganlynol yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol:

Cyf.	Dangosydd
ASI 1	Nifer a chanran y staff ym mhob adran wasanaeth sy'n medru'r Gymraeg; yn ôl graddfa a gweithle (gan hepgor athrawon a staff ysgolion)
ASI 2	Nifer y staff sydd wedi dilyn hyfforddiant Cymraeg hyd at lefel gymhwyso benodol yn ystod y flwyddyn.

Recriwtio staff

103. Fel rhan o'r broses o weithredu'r strategaeth, bydd yn rhaid i reolwyr edrych ar bob swydd yn ei thro a nodi a fo angen sgiliau Cymraeg ar ei chyfer ai peidio.
104. Pan fydd y Gymraeg yn cael ei hystyried yn hanfodol neu'n fanteisiol, bydd y disgrifiad swydd a'r fanyleb bersonol a'r hysbyseb lawn ar gyfer y swydd (sydd ar gael ar-lein) yn nodi hynny. Dylid hefyd gofnodi'r wybodaeth hon ar system Oracle y Cyngor.
105. Bydd rhai agweddau ar y broses recriwtio hefyd yn ddwyieithog. Bydd ffurflenni cais a llythyrau safonol yn ddwyieithog, a byddwn yn derbyn ffurflenni cais yn Gymraeg a Saesneg.
106. Bydd hysbysebion am staff yn dangos bod y Cyngor wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn helpu i ddenu staff Cymraeg eu hiaith. Bydd gwybodaeth safonol fel enw'r Cyngor a'r adran sy'n recriwtio ac unrhyw wybodaeth safonol ddigynnewid yn ymddangos yn ddwyieithog er mwyn cyrraedd y safon ofynnol.
107. Bydd agweddau eraill ar y broses recriwtio un ai'n ddwyieithog neu yn Gymraeg a Saesneg ar wahân, gan ddibynnu ar y math o swydd sy'n cael ei hysbysebu. Pan fydd y Gymraeg yn cael ei hystyried yn hanfodol ar gyfer swydd, bydd yr hysbysebion (yn fewnol, yn y wasg allanol, mewn canolfannau

gwaith ac ati) yn Gymraeg yn unig. Bydd pwt yn Saesneg hefyd sy'n egluro pam yn union y gwnaethpwyd hynny.

Dyma hysbyseb am swydd lle y mae gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol.

108. Pan fydd y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd, bydd hysbysebion am y swydd yn Gymraeg yn unig. Mewn achosion eraill, bydd gwybodaeth gyfeiriol gyffredinol yn cael ei chynhyrchu'n ddwyieithog. Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn archwilio'r posibilrwydd o gynnwys mwy o Gymraeg mewn hysbysebion safonol. Mae cam gweithredu ychwanegol yn y cynllun erbyn hyn sy'n gofyn am gyflawni hynny erbyn Chwefror 2013.
109. Byddwn yn parhau i benodi ymgeiswyr yn ôl eu teilyngdod ac yn unol â pholisïau cyfle cyfartal a deddfwriaeth gyflogi.
110. Pennaeth a llywodraethwyr yr ysgol a fydd yn penderfynu ar ffurf ac arddull hysbysebion ar gyfer staff ysgolion cymunedol Bro Morgannwg. Bydd y Cyngor yn annog ysgolion i fabwysiadu arferion da wrth lunio eu hysbysebion.
111. Pan fydd y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd, bydd siaradwr Cymraeg brodorol yn gofyn nifer o gwestiynau (a gytunwyd gan y panel cyfweld) i'r ymgeisydd, yn Gymraeg. Pan fydd gallu i ysgrifennu Cymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd, bydd y Cyfieithydd Cymraeg yn darparu prawf ysgrifennu ar gyfer yr ymgeisydd.
112. Er mwyn denu ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith, byddwn yn cydweithio ag Ysgol Bro Morgannwg a Choleg y Barri drwy gynnal 'ffair swyddi', cynnig profiad gwaith ac ati.

Hyfforddiant Cymraeg ar gyfer staff

113. Bydd y Cyngor yn annog staff ac aelodau etholedig i ddysgu neu wella eu Cymraeg ac yn eu cefnogi yn hynny o beth. Bydd pob aelod newydd o staff newydd yn cael cynnig cwrs sefydlu sy'n egluro'r safonau gwasanaeth a gofynion y Cynllun Iaith.
114. Ni all y Cyngor dalu am bob hyfforddiant Cymraeg. Mae'n rhaid trefnu hyfforddiant Cymraeg yn ôl blaenoriaeth er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian. Rhoddir y brif flaenoriaeth o safbwynt hyfforddi i staff mewn swyddi lle y mae gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn hanfodol. Bydd y Cyngor yn trefnu ac yn noddi hyfforddiant dwys ar gyfer staff sydd eisoes mewn swyddi o'r fath, a rhai heb sgiliau Cymraeg digonol a benodwyd am eu bod yn fwy addas na'r ymgeiswyr eraill. Byddwn yn cytuno ar dargedau ar gyfer lefel a hyd y cwrs gofynnol. Bydd ymgeiswyr sy'n cael cynnig swydd o'r math yma'n derbyn y cytundeb gyda'r llythyr penodi.
115. Bydd y Cyngor yn trefnu a noddi hyfforddiant ar gyfer staff mewn swyddi lle mae'r Gymraeg yn fanteisiol. Pan fo angen hyfforddiant ar staff, rhoddwn flaenoriaeth iddynt yn ôl yr hyn a gytunwyd yn eu harolygon personol neu'r arolwg datblygu tîm. Bydd hyfforddiant hefyd yn cael ei gynnig i aelodau eraill o staff fel y gwêl eu rheolwyr yn dda.

116. Bydd y Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol yn datblygu rhaglen hyfforddi flynyddol wedi'i seilio ar y wybodaeth mewn arolygon datblygiad personol ac arolygon datblygu timau. Byddwn yn adolygu a monitro hyfforddiant bob tymor er mwyn asesu lefelau gallu a'r nifer a fu'n mynychu'r cyrsiau. Bob tro y bydd dysgwyr yn peidio â chwblhau eu cyrsiau, byddwn yn nodi'r rhesymau am hynny ac yn defnyddio'r wybodaeth i wella'r hyfforddiant. Byddwn yn gofyn i aelodau o staff sy'n medru'r Gymraeg helpu ac annog dysgwyr i'w defnyddio yn y gweithle.
117. Bydd prif swyddogion yn asesu'r angen am ddarparu hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer aelodau dwyieithog penodol o staff. Byddwn yn darparu hyfforddiant addas er mwyn meithrin sgiliau iaith staff yn ôl anghenion gwasanaethau, er y gallai cyfyngu ar y gyllideb effeithio ar y trefniadau hyn.
118. Bydd yr hyfforddiant yn ymdrin â sgiliau ac arbenigeddau penodol fel geirbrosesu, iaith dechnegol, cyfieithu, sgiliau ar gyfer y cyfryngau ac iaith galwedigaethau penodol megis gwaith cymdeithasol.
119. Bydd staff sy'n medru ychydig o Gymraeg eisoes ac yn fodlon defnyddio eu sgiliau er lles y Cyngor a'i gwsmeriaid, yn cael cynnig hyfforddiant gloywi iaith.

Trefniadau gweinyddol

120. Bydd y Cynllun yn cael ei gymeradwyo gan Gyngor Bro Morgannwg a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn cael ei weithredu ym mhob rhan o'r awdurdod. Prif swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun yn eu hadrannau eu hunain. Bydd Aelodau Gweithredol unigol yn gyfrifol am weithredu'r cynllun yn eu gwahanol feysydd portffolio ac yn gyd-gyfrifol am ei weithredu fel aelodau o'r Cabinet. Bydd aelodau etholedig nad ydynt yn perthyn i weithrediaeth yr awdurdod yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y cynllun fel rhan o'r broses graffu.
121. Bydd y Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol yn egluro ac yn dosbarthu'r cynllun i staff, partneriaid ac aelodau etholedig, gan sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau, a bod y cynllun gweithredu cysylltiedig yn cael ei weithredu.
122. Mae dyletswydd ar reolwyr a staff i weithredu'r cynllun yn eu gwahanol feysydd gwaith. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r gofal gorau posibl i gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith a darparu gwasanaeth ar eu cyfer sydd gystal bob tamaid â'r gwasanaeth a gynigir yn Saesneg. Byddwn yn sicrhau bod y staff a'r aelodau sy'n llunio polisïau'n ymwybodol o'r cynllun a'r ddyletswydd sydd arnynt i'w weithredu.

Cyfleusterau cyfieithu

123. Bydd y Cyngor yn darparu pob math o wasanaethau cyfieithu arbenigol. Bydd yn cyflogi cyfieithwyr arbenigol a fydd yn gyfrifol am gyflwyno gwaith manwl gywir.
124. Ni fyddwn fel arfer yn gofyn i aelodau eraill o staff sy'n medru'r Gymraeg gyfieithu, ond bydd rhyddid i unrhyw rai sy'n meddu ar y sgiliau priodol ateb gohebiaeth yn Gymraeg.

Gwasanaethau a osodir ar gontract neu a ddarperir gan gyrff eraill

125. Mae tuedd gynyddol i ni ddarparu gwasanaethau'r Cyngor drwy gontract neu drwy gydweithio â phartneriaid. Byddwn yn annog partneriaid ac asiantaethau a noddir drwy grant i ddarparu'n effeithiol ar gyfer eu cwsmeriaid a chleientiaid Cymraeg eu hiaith.
126. Bydd y Cyngor yn cydweithio â nifer o gyrff cyhoeddus, sefydliadau'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Byddwn yn annog partneriaid y Cyngor i ddarparu ar gyfer eu defnyddwyr Cymraeg eu hiaith drwy gynnig gwybodaeth a gwasanaethau dwyieithog. Bydd y Cyngor yn gweithio ar sawl lefel wrth gydweithio â sefydliadau eraill:
- Pan fo'r Cyngor yn arweinydd strategol ac ariannol partneriaeth, bydd yn sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer y cyhoedd yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith.
 - Pan fo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth sydd o dan arweiniad corff arall, bydd ei gyfraniad yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd yn annog sefydliadau eraill yn y bartneriaeth i wneud yr un fath.
 - Pan fo'r Cyngor yn rhan o gonsortiw, bydd yn annog y consortiw hwnnw i fabwysiadu polisi dwyieithog. Pan fo'n gweithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiw, bydd yn dilyn y Cynllun Iaith.
 - Pan fo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn holi'r darpar aelodau am eu cynlluniau iaith, eu polisiâu iaith a'u ffyrdd o weithredu'n ddwyieithog. Pan fo'n rhan o unrhyw bartneriaeth, bydd yn cynghori ac yn cefnogi'r asiantaethau eraill neu'n eu cyfeirio at Fwrdd yr Iaith Gymraeg am gymorth.
 - Bydd y Cyngor yn paratoi canllawiau ar gyfer swyddogion sy'n cydweithio mewn partneriaeth, er mwyn egluro ei gyfrifoldebau o dan y Cynllun hwn a dangos sut i gymhwyso gofynion y Cynllun wrth weithio ar y cyd.
127. Bydd disgwyl i sefydliadau sy'n cael nawdd oddi wrth y Cyngor (ar gyfer costau cynnal neu brosiectau) ddangos eu bod yn darparu ar gyfer eu defnyddwyr Cymraeg. Bydd contractau a chytundebau lefel gwasanaeth yn egluro anghenion defnyddwyr Cymraeg. Byddwn yn gofyn i rai sy'n gwneud cais am grant egluro ar y ffurflen sut yn union y maent yn bwriadu darparu ar gyfer eu cleientiaid Cymraeg.

Swyddogaethau statudol neu swyddogaethau rheoli eraill

128. Bydd y Cyngor yn cyflawni pob math o swyddogaethau statudol a rheoli sy'n rheoli ei ddarpariaeth ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan sefydliadau a chyrff eraill. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys caniatáu trwyddedau a hefyd gydsyniadau a cheisiadau ar gyfer cynllunio.
129. Bydd dogfennau ymgeisio ar gyfer y cyhoedd yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog. Bydd y Cyngor yn annog sefydliadau eraill hefyd i ddarparu prosesau ymgeisio a chyfathrebu dwyieithog.

Monitro

130. Bydd y Cyngor yn asesu i ba raddau y mae'n llwyddo i gyflawni ei ddyletswydd i weithredu'r cynllun drwy gymryd y camau canlynol:
- Monitro cynlluniau gwasanaeth, gan gynnwys cynlluniau gweithredu a dangosyddion perfformiad bob chwarter;
 - darparu cynllun gwella blynyddol sy'n cynnwys targedau a golwg fras ar yr hyn sydd i'w gyflawni o safbwynt gweithredu'r Cynllun Iaith;
 - cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
131. Bydd adroddiadau monitro blynyddol yn cael eu llunio gan dîm Cydraddoldeb drwy ymgynghori â rheolwyr a swyddogion sy'n gweithredu'r Cynllun, ac yn asesu cynnydd o safbwynt:
- cyflawni amcanion y cynllun;
 - rhoi cynllun gweithredu'r cynllun ar waith;
 - taro targedau yn ôl y dangosyddion perfformiad a nodwyd uchod;
 - Enghreifftiau o ymarfer da;
 - nodi'r meysydd y bydd yn rhaid eu gwella a'r camau sydd i'w cymryd.
132. Bydd y Cyngor yn cynnal arolygon barn o bryd i'w gilydd er mwyn cael sylwadau siaradwyr Cymraeg ar safon y gwasanaeth Cymraeg y maent yn ei dderbyn.

Cwynion

133. Mae'r Cyngor wrth ei fodd yn clywed ymateb y cyhoedd ac yn awyddus i gael gwybod pan fydd pethau'n mynd o chwith a chael awgrymiadau ynglŷn â'u gwella. Bydd cwynion am y gwasanaeth Cymraeg yn cael eu trafod o dan drefn gwynion bresennol y Cyngor.
134. Rydym wedi rhoi proses gwyno gorfforaethol ar waith sy'n darparu'n well ar gyfer casglu data a pharatoi gwybodaeth rheoli. Mae'n gofyn i wasanaethau nodi'r gwersi a ddysgwyd, a'r camau sydd i'w cymryd er mwyn osgoi cwynion tebyg yn y dyfodol. Mae'r drefn hon yn sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth gwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Cyhoeddi gwybodaeth a chyhoeddusrwydd

135. Caiff y Cynllun Iaith Gymraeg a'r adroddiadau monitro blynyddol eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd hefyd yn cael ei gynnig yn rhad ac am ddim i unrhyw bartneriaid, asiantaethau allanol ac unigolion sy'n gofyn am gopi.
136. Bydd manylion am wasanaethau Cymraeg a sut mae mynd ati i'w defnyddio, ar wefan y Cyngor. Byddwn hefyd yn cyhoeddi'r wybodaeth hon mewn:
- hysbysiadau cyhoeddus
 - hysbysiadau yn swyddfeydd y Cyngor
 - taflen sy'n rhestru dyletswyddau a gwasanaethau Cymraeg y Cyngor
 - cyfarwyddiadau ar gyfer staff

Cyhoeddi Gwybodaeth am Berfformiad

137. Bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r holl ddangosyddion statudol cenedlaethol a pherfformiad setiau data craidd, a'u defnyddio'n sylfaen ar gyfer casglu data a gosod targedau. Byddwn hefyd yn mabwysiadu rhai dangosyddion lleol sydd o gymorth i fesur cynnydd yn ôl y cynllun hwn, ac yn cyflwyno unrhyw ddata sydd ar gael eisoes i Fwrdd yr Iaith Gymraeg fel rhan o'n hadroddiad blynyddol.
138. Caiff targedau eu monitro bob chwarter a'u hadolygu bob blwyddyn fel rhan o'r broses rheoli perfformiad, er mwyn dangos y newid mewn amgylchiadau ariannol a statudol.
139. Bydd y Cyngor yn monitro'r wybodaeth ganlynol:
- Cydymffurfiaid â gofynion Cymraeg ymhlith sefydliadau sy'n gweithio ar ran y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn edrych ar sampl o gontractau â sefydliadau allanol er mwyn nodi unrhyw broblemau o safbwynt cydymffurfio â'r gofynion Cymraeg sydd wedi'u rhestru yng nghanllawiau caffael y Cyngor. Caiff y mesur ei gyflwyno fel canran o'r nifer yn y sampl.
 - Gwybodaeth am staff rheng flaen a recriwtio i'r swyddi hynny ar hyn o bryd.

Swyddi rheng flaen yw swyddi yn swyddfa flaen canolfan gyswllt UnFro'r Cyngor.
 - Nifer y staff sy'n dilyn hyfforddiant a'r lefel neu'r radd a gyrhaeddwyd.

Byddwn yn mesur hyn ar sail nifer y staff sy'n dilyn cyrsiau hyfforddi'r Cyngor. Caiff y mesur ei gyflwyno fel rhif ochr yn ochr â lefelau cymhwyso penodol.
 - Nifer y staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl graddfa ac adran.

Byddwn yn mesur hyn ar sail yr archwiliad sgiliau iaith a'r wybodaeth yn system Oracle pan fydd honno ar gael.

- Nifer y cwynion am weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Bydd y dangosydd perfformiad hwn yn cael ei fesur ar sail nifer y cwynion am gynnwys neu weithrediad y Cynllun, a thîm cydraddoldeb a fydd yn gyfrifol am eu harchwilio ac ymateb iddynt.

140. Bydd targedau ar gyfer dangosyddion data cenedlaethol a setiau data craidd yn cael eu gosod bob blwyddyn. Gwneir hyn fel rhan o broses cynllunio busnes y Cyngor yn unol â'r Fframwaith Rheoli Perfformiad, a bydd aelodau etholedig yn eu monitro bob chwarter. Cyhoeddir perfformiad yn ôl y targedau hyn bob blwyddyn yng Nghynllun Gwella'r Cyngor.

Amserlen

141. Lluniwyd cynllun gweithredu er mwyn helpu i roi'r cynllun ar waith. Mae'n cynnwys manylion am gamau gweithredu, yn cyfeirio at gynlluniau eraill ac yn nodi'r swyddog cyfrifol, dyddiadau cychwyn a dod i ben, meini prawf llwyddiant a'r adnoddau gofynnol. Mae lle hefyd i gynnwys adroddiadau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r camau gweithredu. Mae amserlen camau gweithredu i'w gweld yn Atodiad 1.
142. Caiff y cynllun gweithredu ei ddiweddarau bob blwyddyn, a bydd yn goleuo cynlluniau gwasanaeth a chynlluniau timau eraill. Bydd Pennaeth Perfformio a Datblygu'r Cyngor yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad monitro i'r pwyllgor craffu bob chwarter, ac am adolygu gweithrediad y cynllun gweithredu bob blwyddyn. Pan fydd camau gweithredu heb eu cwblhau a thargedau heb eu taro, bydd yn rhaid cynnig eglurhad a nodi'n union sut y bwriedir mynd i'r afael â'r diffyg cyflawni.

AMSERLEN CAMAU GWEITHREDU

Cyf.	CAM GWEITHREDU	<u>Dyddiad</u> <u>cychwyn</u>	DYDDIAD CWBLHAU
CIG 62	Cyhoeddi a hyrwyddo'r Strategaeth Sgiliau Iaith.	Mehefin 2011	Medi 2011
CIG 63	Datblygu a gweithredu Strategaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer y Gymraeg.	Ionawr 2012	Ebrill 2012
CIG 64	Hyrwyddo a chyhoeddi'r Cynllun Iaith Gymraeg.	Chwefror 2012	Ebrill 2012
CIG 65	Sicrhau bod gwybodaeth am sgiliau iaith yn cael ei chasglu oddi wrth bob aelod o staff a'i chynnwys ar system Oracle.	cychwynnwyd	Ebrill 2012
CIG 66	Sicrhau bod arwyddion a bathodynau i'w gweld mewn derbynfydd.	Medi 2011	Mawrth 2012
CIG 67	Sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg ar gael yn y Ganolfan Gyswllt.	cyfredol	Ionawr 2012
CIG 68	Trefnu i'r holl ffurflenni ar-lein a gwybodaeth am gofrestru ar gyfer etholiadau gael eu cyfieithu.	cychwynnwyd	Ionawr 2012
CIG 69	Sicrhau bod gan yr holl staff Cymraeg eu hiaith droedynnau e-bost dwyieithog.	Tachwedd 2011	Chwefror 2012
CIG 70	Sicrhau bod y deg tudalen fwyaf poblogaidd ar y wefan ymhlith trigolion yn gwbl ddwyieithog.	cychwynnwyd	Chwefror 2012
CIG 71	Sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i newyddion cyfredol, diweddariadau a gwybodaeth am swyddi wrth gyfieithu deunydd ar gyfer y wefan.	cychwynnwyd	Chwefror 2012
CIG 72	Adolygu cynnwys Cymraeg dewislenni'r wefan.	cychwynnwyd	Mawrth 2012
CIG 73	Adolygu disgrifiadau swyddi a manylebau personol staff derbynfydd, a'u diwygio ar gyfer staff newydd, er mwyn cael cynnwys sgiliau Cymraeg, pan fo hynny'n briodol.	Ionawr 2012	Ebrill 2012
CIG 74	Helpu aelodau etholedig i gyhoeddi a gwella eu sgiliau Cymraeg.	Mawrth 2012	Mai 2012
CIG 46 Cam gweithredu a ddygwyd ymlaen	Cydweithio â Choleg y Barri ac Ysgol Bro Morgannwg er mwyn denu pobl sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg i ymgeisio am swyddi a gwneud profiad gwaith.	Mawrth 2012	Mai 2012
CIG 75	Paratoi canllawiau ar gyfer swyddogion sy'n gweithio mewn partneriaethau.	Medi 2012	Hydref 2012
CIG 76	Sicrhau bod strategaeth AD a chynllun y Gweithlu'n cymryd y Strategaeth Sgiliau Iaith i ystyriaeth.	Rhagfyr 2012	Chwefror 2013
CIG 77	Adolygu iaith Disgrifiadau Swyddi er mwyn sicrhau eu bod yn eglur ar gyfer siaradwyr Cymraeg.	Ionawr 2013	Mawrth 2013
CIG 78	Nodi faint o afael sydd ei hangen ar y Gymraeg ar gyfer cyflawni gwahanol swyddogaethau.	Chwefror 2013	Mawrth 2013
CIG 79	Cynnal ymgyrch newydd 'Mae gen ti ddewis' er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio llinell Gymraeg y Ganolfan Gyswllt.	Mai 2013	Mehefin 2013
CIG 80	Rhoi hyfforddiant 'codi ymwybyddiaeth' i aelodau allweddol o staff yn rheolaidd a chyfle	Cyfredol	Mehefin 2013

	iddynt ymarfer eu sgiliau Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol.		
CIG 81	Cydweithio'n drefnus â Menter y Fro er mwyn hybu dwyieithrwydd, yn enwedig ym maes hamdden ac wrth ymdrin â phreifateiddio.	cychwynnwyd	Rhagfyr 2013
CIG82	Cynnwys materion Cymraeg mewn hyfforddiant recriwtio a dewis.	Medi 2011	Rhagfyr 2013
CIG 83	Cynllunio a dosbarthu cronfa ddata i adrannau ei defnyddio i gofnodi unigolion a sefydliadau sydd am gyfathrebu â'r Cyngor yn Gymraeg.	Medi 2013	Rhagfyr 2013
CIB 6 (cam gweithredu parhaol)	Archwilio cyhoeddiadau, dogfennau a deunydd hybu'r Cyngor.	cyfredol	Rhagfyr 2013
CIG 7 (dygwyd ymlaen)	Trefnu bod staff y ganolfan gyswllt yn nodi pa iaith y mae cwsmeriaid am ei defnyddio ac yn rhoi gwybod i staff y swyddfa gefn.	dechreuwyd	Rhagfyr 2013
CIG 9 (dygwyd ymlaen)	Archwilio deunydd hysbysebu bob blwyddyn er mwyn asesu cydymffurfiad â nodau'r Cynllun Iaith.	cyfredol	Rhagfyr 2013
CIG 83	Cynnwys gwybodaeth am sgiliau iaith yn yr Adroddiad Monitro blynyddol.		Mawrth 2014
CIG 84	Monitro Cynlluniau Gwasanaeth er mwyn sicrhau bod camau gweithredu sy'n gysylltiedig â Chynllun Cydraddoldeb y Fro a'i dargedau'n cael eu gweithredu'n effeithiol.	cyfredol	Mehfin 2014
CIG 85	Adolygu fformat presennol hysbysebion am swyddi er mwyn cael cynnwys mwy o Gymraeg.	Medi 2013	Chwefror 2013